CEREBRAL PALSY CYMRU

# Adolygiad Blynyddol 2020/2021



# Ni yw Parlys yr Ymennydd Cymru.

Ein cenhadaeth yw gwella ansawdd bywyd bob plentyn sy’n byw gyda pharlys yr ymennydd yng Nghymru.

Mae ein gwerthoedd fel elusen bob amser with wraidd yr hyn a wnawn.



Sicrhau mai teuluoedd sydd wrth wraidd ein sefydliad

Gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd a thimau cymunedol



Gweithio â’r lefelau uchaf o onestrwydd

Sicrhau’r ansawdd gorau ym mhob peth a wnawn

# Neges y Cadeirydd

Hoffwn ddechrau'r arolwg blynyddol hwn drwy ddweud pa mor falch ydw i a'm cyd Ymddiriedolwyr o bopeth mae Parlys yr Ymennydd Cymru wedi'i gyflawni yn ystod 2020/21, er gwaetha'r heriau eithriadol y mae wedi eu hwynebu.

Bydd y flwyddyn 2020/21 yn mynd i lawr mewn hanes fel dechrau pandemig Covid-19 yn y DU – a blwyddyn a gafodd effaith ar fywydau cymaint ohonom ac mae'n dal i wneud.

Fe symudon ni i ganolfan blant newydd a mwy o faint drwy gymorth grant sylweddol gan Sefydliad Moondance a Llywodraeth Cymru.

Achosodd argyfwng y Coronafeirws anawsterau digynsail i'r elusen, a ategwyd gan y ffaith ein bod wedi colli bron i 50% o'r incwm roeddem wedi disgwyl ei dderbyn, er i ni orffen y flwyddyn mewn sefyllfa sefydlog.

At hynny, er i ni gau ein lleoliad am gyfnod, llwyddodd yr elusen i barhau i ddarparu gwasanaethau i blant a theuluoedd drwy gyfnodau mwyaf critigol y pandemig.

Arweiniodd y golled mewn incwm at ail-werthuso ein hamgylchiadau'n sydyn, cymryd camau i gyfyngu ar wariant a gwneud y gorau o bob llif incwm newydd ac ymarferol. Roedd hyn yn cynnwys gwneud defnydd o gynllun saib swyddi'r Llywodraeth.



Dengys ein hadroddiad codi arian, a luniwyd gan ein Pennaeth Creu Incwm, gymaint y mae ein ffrindiau a'n cefnogwyr yn hanfodol i'n sefydlogrwydd ar hyn o bryd.

Cofir am 2020/21 hefyd fel y flwyddyn pan wynebodd yr elusen newid trawsffurfiol sylweddol.  Drwy ail-frandio o Ganolfan Therapi Plant Bobath Cymru i Parlys yr Ymennydd Cymru, roedd modd sicrhau bod teuluoedd a oedd angen ein gwasanaethau, fwy nag erioed, yn gallu dod o hyd i ni yn haws.   Unwaith eto, hoffwn dalu teyrnged i'n staff a'n gwirfoddolwyr gwych ac ymroddgar, am eu cyfraniad diflino a'u hymdrech i sicrhau ein bod ni wedi llwyddo i barhau i gynnig ein gwasanaethau arbenigol i deuluoedd ledled Cymru sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd yn ystod y cyfnod unigryw o heriol yma.

Ar adeg ysgrifennu, mae heriau'r pandemig yn parhau ond rydym yn ffyddiog y bydd Parlys yr Ymennydd Cymru yn parhau gyda'ch cefnogaeth barhaus a gwerthfawr.



**J Frank Holmes**
Cadeirydd



# Neges Cyfarwyddwr y Ganolfan

Yn Parlys yr Ymennydd Cymru mae pethau'n digwydd ac yn newid yn gyflym, ond bu'r gyfradd newid a'r datblygiadau rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 yn eithriadol, hyd yn oed i ni. Ychwanegwyd pandemig y Coronafeirws at agenda a oedd eisoes yn heriol.

Yn sgil ymrwymiadau a wnaed eisoes, a'r angen cynyddol i deuluoedd allu dod o hyd i ni yn ystod y cyfnod clo, penderfynwyd ei bod yn bwysig bwrw ymlaen â'n cynlluniau i symud lleoliad; addasu ein hadeilad newydd; ac ail-frandio'r sefydliad, er gwaetha'r heriau ymarferol ac ariannol ychwanegol. Roedd pob un o'n timau'n barod i wynebu'r her.

Dros nos, llwyddodd y tîm therapi i addasu i fodel therapi rhithiol. Sefydlodd y therapyddion fannau triniaeth yn eu cartrefi er mwyn sicrhau bod sesiynau rhithiol mor effeithio â phosibl ac yn ymyrraeth wirioneddol, ar adeg pan oedd cyfyngiadau mawr ar ein gwasanaethau i deuluoedd am fod gweithwyr iechyd oedd yn gweithio ym maes niwroanabledd plant yn cael eu hadleoli.

Wrth i'r pandemig ddatblygu, cynyddodd yr angen am therapi ymarferol wyneb yn wyneb, ac yn raddol, gydag asesiadau risg unigol, a phrosesau diogelwch clir yn eu lle, rydym wedi datblygu dulliau hyblyg o gyflwyno therapi rhithiol ac wyneb yn wyneb.



Rydym hefyd wedi cymryd yr agweddau cadarnhaol o'r profiad hwn, a byddwn yn parhau i integreiddio elfennau o'r model hwn wrth gynllunio ymyriadau therapi i'r dyfodol.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'n cydweithwyr yn y timau therapi cymunedol a fu'n cynnal rhai o'n sesiynau therapi wrth i'n canolfan blant newydd gael ei hadnewyddu pan nad oedd gennym leoliad parhaol, ac i Eglwys y Bedyddwyr Bethel ac Ysbyty Sant Joseff a gynigiodd gartref i ni er mwyn sicrhau y gallai ein gwasanaethau therapi barhau tra'n aros i'r gwaith adeiladu ar ein canolfan blant newydd gael ei gwblhau.

Roedd Glenys, ein Cydlynydd Cymorth i Deuluoedd, hefyd yn allweddol i'n gallu i ddarparu ein gwasanaethau yn ystod y cyfnod heriol hwn. Fel elusen, rydym yn hynod o falch o fod wedi gallu cynnig cyngor a chefnogaeth i bob teulu a oedd eu hangen hynny drwy gydol y pandemig.

Fel y dywedodd un fam wrth Glenys yn dilyn sesiwn cymorth i deuluoedd, *"Mae'r cyfnod clo wedi bod yn hynod o anodd, heb therapi yn y gymuned, a dim amser ar wahân i'n gilydd i gael seibiant. Mae'n bosib mai hwn fu'r cyfnod anoddaf i ni ei wynebu fel teulu, ond mae Parlys yr Ymennydd Cymru wedi rhoi rhywbeth i ni ganolbwyntio arno yn ystod y cyfnodau mwyaf anobeithiol."*



Dyna pam roedd yn hanfodol ein bod ni'n parhau i gynnig ein gwasanaethau i'n teuluoedd er gwaethaf heriau'r pandemig. Roedden ni'n gwybod bod eu hangen yn fwy nag erioed.

Roedd ein tîm Cyllid a Gweithrediadau'n hanfodol wrth lywio'r newidiadau cyson yr oedd yn rhaid eu hwynebu yn sgil y pandemig, ac fe weithion nhw'n hynod o galed i gynnig amrywiadau i'n polisi a'n hisadeiledd yn sgil bob newid. Fe wnaethon nhw arwain y symud o'n hen adeilad a thrawsnewid ein canolfan blant newydd, gan weithio'n gyson yn y cefndir i ddarparu'r wybodaeth ariannol frys roedd ei hangen wrth reoli'r argyfwng.

Fe wnaethon nhw hefyd gynorthwyo gyda'r gwaith o ailstrwythuro ein staff a'r prosesau diswyddo cysylltiedig, gan i'r heriau ariannol a achoswyd gan y pandemig yn anffodus arwain at golli ffrindiau a chydweithwyr gwerthfawr o'r sefydliad. Roedd y rhain yn benderfyniadau anodd ac rydym yn dymuno'r gorau i'n cyn-gydweithwyr i'r dyfodol.

Mae ein tîm Manwerthu wedi wynebu cyfnod heriol o gau siopau, seibiant swyddi, ailagor a newidiadau i reoliadau, ac fe wnaethon ni'r penderfyniad anodd i gau ein siop ddodrefn a'n warws yn barhaol. Rwy'n falch o allu dweud serch hynny fod y pedair siop sydd gennym ar ôl wedi adfer eu cyfraniad i'n hincwm yn gyflym iawn.



Wrth gloi hoffwn gyfeirio at y tîm Codi Arian sydd wedi bod yn wirioneddol eithriadol wrth wneud iawn am incwm a gollwyd a thrawsffurfio ein llif arian. Ni chollwyd unrhyw gyfleoedd ac ar ddiwedd blwyddyn heriol roeddem mewn sefyllfa ariannol ddiogel a chadarn, yn barod i wynebu heriau parhaus 2021/22.

Gallaf ddweud yn onest fod bob aelod o'n tîm wedi gweithio'n eithriadol o galed ac wedi cyflawni rôl hanfodol. Maen nhw'n haeddu diolch mawr ac rwy'n gwybod eu bod yn cael eu sbarduno gan y gwahaniaeth rydym yn ei wneud i'n teuluoedd a'n plant.

Dof i ben drwy ddiolch o galon hefyd i'n cefnogwyr sydd wedi bod yn gefn i ni yn ystod y daith ddigynsail hon.

Sefydlwyd Parlys yr Ymennydd Cymru gan deuluoedd ar gyfer teuluoedd gan ddatblygu a thyfu gyda diolch i gefnogaeth cymuned ehangach Cymru.

Dywedir bod angen pentref i fagu plentyn, ond mae angen ymdrechion gwlad i ddarparu ar gyfer plant a theuluoedd sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd.

Jenny

**Jenny Carroll MA MCSP PGC(HE)**
Cyfarwyddwr y Ganolfan



Cyflwynwyd

# 626

o sesiynau therapi arbenigol i blant ledled Cymru, yn rhithiol ac wyneb yn wyneb.





Cafodd

# 257

o fabanod a phlant eu trin a'u gweld gennym yn ystod 2020/2021.

Cyfeiriwyd

# 48

o fabanod newydd at ein gwasanaeth ymyrraeth gynnar, 'Better Start, Better Future''.





Cynhaliwyd

# 138

o sesiynau cymorth i deuluoedd yn ychwanegol at y sesiynau therapi er mwyn cynnig cefnogaeth emosiynol a chyngor ymarferol i deuluoedd.

# Edrych nôl dros ein blwyddyn.

## Ebrill

Fe ddechreuon ni drwy ddarparu ein therapi rhithiol hanfodol er mwyn sicrhau y gallai teuluoedd barhau i gael mynediad i'n gwasanaethau er gwaetha'r cyfnod clo



## Mai

Lansiwyd ein hunaniaeth a'n brand newydd ar 25 Mai, gan ein newid i fod yn Parlys yr Ymennydd Cymru.

## Awst

Lansiwyd y cynllun 'bwyta allan i helpu allan', ac roedden ni wrth ein bodd o allu cefnogi ein ffrindiau yn Mowgli Street Food, Caerdydd.

## Medi

Roedd paratoadau ar y gweill ar gyfer Mis Ymwybyddiaeth Parlys yr Ymennydd (CPAM) – ein cyntaf fel Parlys yr Ymennydd Cymru.




## Rhagfyr

Cynhaliwyd ein Cyngerdd Carolau rhithiol, yn cynnwys Bonnie Tyler, Mathew Rhys, Lucy Owen, Max Boyce, a'n côr staff ni ein hunain!




## Ionawr

Llwyddwyd i gynnig therapi i blant o fewn eu cymunedau lleol drwy gyfrwng sesiynau allgymorth er gwaetha'r ail gyfnod clo cenedlaethol.

## Mehefin

Cynhaliwyd y sesiwn therapi wyneb yn wyneb gyntaf, ers i'r wlad fynd i mewn i'r cyfnod clo, yn ein Canolfan Therapi.

## Gorffennaf

Ailagorodd ein siopau elusen yn raddol, gyda diolch i lwyddiant ein Gorsaf Gyfrannu.  .





## Hydref

Cymerodd llawer o'n teuluoedd a'n cefnogwyr ran yn y 7 Her, gan godi £7,993 i ni yn ystod y mis!

## Tachwedd

Gwerthwyd a symudwyd allan o'n cyn gartref ar Heol y Parc.  Dechreuwyd gwaith adnewyddu hefyd ar ein cartref newydd yn Llanisien.

## Chwefror

Cynigiodd Ysbyty Sant Joseff ddefnydd o'u hadnoddau er mwyn i ni allu cynnig therapi wyneb yn wyneb i'n teuluoedd.



## Mawrth

Cynigiodd Eglwys y Bedyddwyr Bethel le i ni ar gyfer cynnal sesiynau therapi wrth i ni aros i'r gwaith adnewyddu ar ein cartref newydd orffen..

# Y wybodaeth ddiweddaraf am therapi









Yn ystod y flwyddyn hynod hon, yn yr wythnosau yn arwain at ddechrau 2020/21, dechreuodd ein tîm therapi ad-drefnu apwyntiadau er mwyn ceisio gweld cymaint o blant ag a oedd yn ddiogel i wneud, a chyn gynted ag y cyhoeddwyd y cyfnod clo cenedlaethol a wnaeth gweld plant wyneb yn wyneb yn amhosibl, trosglwyddwyd ein gwasanaethau'n sesiynau rhithiol.

Roedd yn gyfnod heriol i bob un ohonom! Serch hynny, wynebwyd yr her o ffordd newydd o weithio gan rieni a therapyddion, er gwaetha'r WiFi problemus, gwe-gamerâu trafferthus, ac, o dro i dro, plant nad oeddent yn hoffi ymddangos ar sgrin. Wrth i ni barhau i ddarparu ein gwasanaethau therapi, er gwaetha'r ffaith nad oeddem yn gallu gadael ein cartrefi, roeddem yn ffodus fod y ffordd newydd hon o gynnig therapi'n rhoi cyfle i ni wahodd a chynnwys ein cydweithwyr o'r GIG pryd bynnag yr oedden nhw ar gael; bu'n bosib i ni felly barhau i gydweithio mewn partneriaeth â'r timau GIG lleol.

Yn ystod cyfnod cynnar y pandemig, roeddem wedi ysgrifennu at ein cydweithwyr yn y GIG i ddweud wrthynt ein bod yn dal i gynnig ein gwasanaethau hanfodol, a'n bod yn hapus ac ar gael i dderbyn cyfeiriadau ar gyfer babanod a phlant roedd angen ein gwasanaeth. Fe wnaethom ysgrifennu at bob un o'n teuluoedd cyfredol hefyd i'w sicrhau ein bod ni yno iddynt o hyd ac y gallent gysylltu â ni os oedd angen unrhyw fewnbwn neu gymorth ychwanegol arnynt yn ystod y cyfnod digynsail hwn, gan ein bod yn gwybod fod y cyfnod clo wedi cael effaith enfawr arnyn nhw a'u teuluoedd.

Ar yr un pryd, bu'n rhaid i ni benderfynu rhoi rhai o'r tîm therapi ar seibiant swydd, gan adael tîm creiddiol o therapyddion i gynnal y sesiynau therapi yn rhithiol.

oedd hwn yn gyfnod hynod o anodd i'r tîm cyfan, yn cynnwys y rhai ar seibiant swydd a'r rhai oedd yn dal i ddarparu ein gwasanaethau hanfodol.

Wrth i gyfyngiadau ddechrau codi wedi'r cyfnod clo cyntaf, fe ddechreuon ni gynnig gwasanaeth therapi hybrid, a oedd yn gyfuniad o sesiynau wyneb yn wyneb a/neu rithiol, yn seiliedig ar asesiadau risg unigol.

Cafwyd nifer o fanteision i ddarparu ein sesiynau therapi'n rhithiol; mae'n lleihau amser teithio i deuluoedd ac yn rhoi mwy o gyfle i gydweithwyr o gymuned y GIG i fynychu, gan ddod â budd i'r teuluoedd a chryfhau ein cysylltiadau. Mae hefyd yn helpu teuluoedd i ddod yn fwy hyderus wrth gyflawni therapi eu hunain gartref yn eu bywydau bob dydd.

Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd dau gwrs hyfforddi, a gafodd eu cyflwyno'n rhithiol i bob therapydd, technegwyr therapyddol a myfyrwyr sy'n gweithio gyda phlant â pharlys yr ymennydd yng Nghymru. Anelwyd y cwrs cyntaf at therapyddion oedd newydd gymhwyso, technegwyr therapyddol a myfyrwyr, ac anelwyd yr ail gwrs at therapyddion mwy profiadol. Mae rhannu ein gwybodaeth a'n sgiliau'n rhan allweddol o'n gwaith yn Parlys yr Ymennydd Cymru ar-lein. Mae cyrsiau a hyfforddiant mwy hygyrch wedi tanlinellu manteision cofleidio'r byd digidol newydd i ni, ac mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu cyrsiau pellach ar-lein.

Er gwaetha'r heriau a gyflwynwyd gan bandemig y Coronafeirws, tanlinellwyd pwysigrwydd cyfeiriadau cynnar at ein rhaglen arbenigol ar gyfer babanod, 'Dechrau Gwell, Dyfodol Gwell'. Cafodd 48 o fabanod newydd eu cyfeirio at ein gwasanaeth rhwng Ebrill 2020 – Mawrth 2021 ac rwy'n hynod o falch ein bod wedi llwyddo i gefnogi'r teuluoedd yma a darparu ein gwasanaeth ymyrraeth gynnar hanfodol i'r babanod hynny a sicrhau'r dechrau gorau posibl mewn bywyd iddyn nhw.



**Therese Millar**
Rheolwr y Tîm Therapi











# Stori Aoife

**Mae Roisin, mam Aoife, yn rhannu ei stori am y manteision i'w theulu o dderbyn therapi rhithiol yn eu cartref drwy gydol y pandemig.**

Cafodd Aoife, fy merch 6 oed, ei chyfeirio at Parlys yr Ymennydd Cymru pan oedd hi tua 16 mis ac ers hynny rydyn ni wedi bod yn mynychu sesiynau therapi yno o leiaf unwaith neu ddwywaith y flwyddyn.



Pan oedd hi'n fabi, roedd Aoife'n eithaf blin ac anhapus ac yn anfodlon cael ei thrin gan bobl eraill, yn enwedig gweithwyr iechyd.

Roedd y bloc cyntaf o sesiynau therapi a dderbyniodd gan Parlys yr Ymennydd Cymru yn waith caled iddi, ond er gwaethaf pryder Aoife (a ninnau!), fe ddysgon ni ambell dechneg anhygoel a ffyrdd o gefnogi ei datblygiad corfforol cyffredinol. Fe ddatblygon ni berthynas hynod gadarnhaol gyda staff Parlys yr Ymennydd Cymru gyda phob sesiwn therapi'n cynnig mwy o sgiliau i ni allu cefnogi datblygiad Aoife.



Wedyn daeth Covid-19, ac fel gweddill y byd, fe ddaeth y cyfnod clo. Derbyniodd Aoife lythyr i gysgodi, a dyma ni'n cymryd hwnnw fel cyfle i ddefnyddio'r amser i ddwysáu'r therapi y gallen ni ei roi iddi gartref. Er i ni weld gwelliant yn ei chydbwysedd, llafaredd, a'i chyfathrebu, roedd Aoife'n ymwybodol iawn o'r hyn oedd yn digwydd o'i chwmpas, ac yn aml yn dangos ei rhwystredigaeth o fethu â chyflawni'n gorfforol yr hyn roedd ei hymennydd yn dymuno iddi wneud.

Pan gawson ni gynnig sesiynau therapi rhithiol ym mis Rhagfyr 2020, ar y dechrau roedd hi'n anodd penderfynu ar beth i ganolbwyntio arno yn ystod y sesiwn. Wedi sgwrs hir iawn gydag un o'i therapyddion, fe ddaethon ni i'r penderfyniad i gefnogi rhai sgiliau unigol yn ogystal â ffisiotherpi cyffredinol a safle'i chlun.


Aeth y sesiwn gyntaf yn dda dros ben – roedden ni'n ffodus fod gyda ni offer ac eitemau defnyddiol gartref, ac roedd y therapyddion yn hynod arloesol gyda'u hawgrymiadau am ba eitemau y gallen ni eu defnyddio oedd yn gyfleus gartref.

Yr ail sesiwn ddangosodd wir fudd sesiynau rhithiol i ni. Dyma ni'n gosod Aoife wrth fy nesg i gael byrbryd ac roedd hi'n bosib i ni ei chefnogi wrth fwyta potyn cyfan o iogwrt ac ychydig fwyd bys a bawd. Roedd hi'n llawn balchder drwy gydol y sesiwn.
Dyma ni'n gosod Aoife wrth fy nesg i gael byrbryd ac roedd hi'n bosib i ni ei chefnogi wrth fwyta potyn cyfan o iogwrt ac ychydig fwyd bys a bawd. Rydyn ni wedi parhau i adeiladu ar y sgiliau yma ac mae Aoife wrth ei bodd gydag amser byrbryd a bwydo'i hunan, yn rhannol oherwydd yr holl lanast mae hi'n ei greu am wn i!

Mae'r cyfnod clo wedi bod yn anodd tu hwnt weithiau ac er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd y gwaith a wnaethom gydag Aoife yn ystod y cyfnod clo cyntaf, fe wnaeth cael sesiynau rhithiol ym mis Rhagfyr agor llwybr newydd o safbwynt adeiladu sgiliau na fyddem o reidrwydd wedi llwyddo i'w gyflawni drwy ymweld â'r ganolfan yn gorfforol.

Gwnaeth cael Aoife yn gyfforddus yn ei chartref ei hun, a pheidio â brysio i gyrraedd apwyntiad gymaint o wahaniaeth i awyrgylch cyffredinol y sesiynau – roedden nhw'n teimlo'n fwy agos-atoch a phersonol rywsut.

Mae'r gefnogaeth rydyn ni wedi'i derbyn gan Parlys yr Ymennydd Cymru dros y blynyddoedd wedi bod yn amhrisiadwy – allwn ni ddim diolch digon iddyn nhw.



# Diweddariad am Godi Arian

Fel elusen sydd fel arfer yn derbyn tua 80% o'i hincwm o godi arian a manwerthu, mae pandemig y Coronafeirws wedi cael effaith ofnadwy ar ein cyllid.

Ym mis Ebrill 2020, gyda'n siopau elusen ar gau, digwyddiadau codi arian, sialensiau a gweithgareddau cymunedol wedi'u hatal yn ogystal â'r ansicrwydd enfawr oedd yn wynebu sefydliadau elusennol a busnesau eu hunain, gwnaethom golli 70% o'r incwm disgwyliedig ar gyfer y mis hwnnw a gafodd ei ragfynegi'n llawn hyder ond ychydig fisoedd yn flaenorol.

Er bod yr heriau'n anferth, gwnaethom ganolbwyntio ein sylw yn gyflym ar apêl argyfwng ac roeddem yn falch o ymuno ag elusennau ledled y wlad ar gyfer sialens rithiol a drefnwyd yn lle Marathon Llundain.

Diolch i'r nawdd brys a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, a weinyddwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a grantiau argyfwng gan gefnogwyr yn cynnwys Sefydliad Moondance, Sefydliad Cymunedol Cymru, Sefydliadau Waterloo a Neumark, Global Make Some Noise, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Plant mewn Angen a busnesau megis Slater and Gordon, Western Power Distribution, Admiral, Harding Evans, Hugh James, Mowgli Street Food, Ysbyty Sant Joseff, a'r Bathdy Brenhinol, llwyddwyd i gynnal y gwasanaethau a'r gefnogaeth a oedd mor angenrheidiol i blant a theuluoedd sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd ledled Cymru.

Cafodd cyfraniadau ychwanegol ar ffurf PPE gan MSS Group, Busnes yn y Gymuned Cymru, Ysgol Brynteg ac Ysbyty Sant Joseff eu gwerthfawrogi ar adeg pan oedd pob ceiniog, o safbwynt incwm ond gwariant hefyd, yn cyfrif.











Roeddem wrth ein boddau o allu ail agor ein menter manwerthu yn unol â'r cyfyngiadau ym mis Mehefin, gan ddechrau â thri penwythnos 'Gorsaf Gyfrannu gyrru heibio' hynod lwyddiannus yn dilyn canllawiau cadw pellter cymdeithasol yn ein canolfan blant newydd cyn i'r gwaith adnewyddu ddechrau.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch yn arbennig i staff a gwirfoddolwyr yn ein tîm manwerthu. Diolch i chi, mae manwerthu elusennol yn dal i fod yn rhan hanfodol o'n hincwm, ac wrth gwrs mae'n gwneud llawer mwy hefyd o safbwynt codi ymwybyddiaeth hanfodol ac ymgysylltiad cymunedol.

Byddwn hefyd yn fythol ddiolchgar am y gefnogaeth a gawsom gan gymaint ohonoch fel noddwyr a rhoddwyr yn ystod y cyfnodau hynod heriol yma.

Diolch i bawb am helpu i gadw Parlys yr Ymennydd Cymru yn ddiogel.

Diolch am roi'r cyfle i ni gynnal a thyfu ein gwasanaethau unigryw, hanfodol i blant a theuluoedd sydd wedi bod ymysg y mwyaf agored i niwed ac wedi'u heffeithio fwyaf yn ein cymdeithas gan effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol a pharhaus y pandemig.

**Am ein bod yn deall.**
**Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth.**

**Rachel Morgan**
Pennaeth Cynhyrchu Incwm













# Dadansoddiad o incwm a gwariant

## Incwm £1,746,191




## Gwariant £1,383,710




Yn ogystal â'r incwm a restrwyd uchod, roeddem yn ffodus bod gennym incwm mewn blynyddoedd blaenorol a bennwyd i gwmpasu treuliau yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac felly rydym wedi defnyddio'r cronfeydd wrth gefn perthnasol ar gyfer hyn.





"Dim ond digwydd taro ar Parlys yr Ymennydd Cymru wnes i wrth chwilio'r we'n wyllt am wasanaethau yn ein hardal un noson – roedd yn rhaid bod rhywbeth allan yna i blant fel Cora, ac roeddwn i wrth fy modd i weld bod yna!

O'r diwrnod cyntaf rydym wedi teimlo'n rhan o deulu Parlys yr Ymennydd Cymru, a dydyn ni ddim wedi edrych nôl.
Mae pawb rydym wedi cyfarfod â nhw wedi bod mor gefnogol a charedig i ni, allen ni ddim bod wedi dymuno mwy."

*Jennifer, mam Cora*

# Am ein bod yn deall.

# Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth.

**Cerebral Palsy Cymru**
1 Y Cwrt
Coedlan Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DX

02920 522600
info@cerebralpalsycymru.org

Cerebralpalsycymru.org
Twitter @cp_cymru
Facebook.com/CerebralPalsyCymru

Rhif Elusen: 1010183
Rhif Cwmni Cyfyngedig: 02691690

**TYmddiriedolwyr**
Frank Holmes
Christine Barber
Caroline Cooksley
Martin Gush
Stephen Jones
Paul Lubas
Marie Wood

**Archwilwyr**
Clifton House Partnership,
Clifton House, Four Elms Rd, Caerdydd, CF24 1LE

**Bancwyr**
Banc Barclays plc, Heol Dewi Sant, Caerdydd, CF10 2DP

Registered with FUNDRAISING REGULATOR